**Atodiad: Cofnod ymgysylltu ac ymgynghori**

Mae'r tabl isod yn grynodeb o'r pwyntiau a chwestiynau a godwyd yn y gwahanol fforymau, yn ogystal a nodi beth yw ymateb yr ymgynghorwyr iaith i'r sylwadau a beth yw'r newidiadau sydd wedi eu cynnig i'r Polisi yn sgil y sylwadau.

Rydym hefyd wedi nodi os oes materion y byddwn yn gweithredu arnynt mewn ffyrdd eraill, neu yn eu codi gyda chydweithwyr, yn hytrach na newid y polisi ei hun.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor iaith, Ionawr 2021**<br>(Cyflwyno cymalau recriwtio yn benodol a thrafod rhai newidiadau posib). | |
| **Materion a godwyd** | **Ymateb yr Uned Iaith a newidiadau sydd wedi eu gwneud** |
| I. Ategwyd pwysigrwydd nodi mewn cyfarfodydd mai ar gyfer y mynychwyr Di-gymraeg mae'r gwasanaeth cyfieithu ac nid gwasanaeth i'r siaradwyr Cymraeg.<br><br>II. Angen cymal am ymwybyddiaeth o enwau llefydd<br><br>III. Cyfeiriad at hysbysebion uniaith Gymraeg o fewn adeiladau'r Cyngor<br><br>IV. Dylanwadu ar bolisïau cyrff sydd yn rhan o gaffaeliad y Cyngor<br><br>V. Gofyn barn am yr egwyddor o gynhyrchu dogfennau dwyieithog fel bod pobl yn gweld y Gymraeg ar bob cyfle posib. Y pwyllgor yn cytuno ar yr egwyddor yma. | I. Cymalau perthnasol wedi eu haddasu yn y polisi i amlygu'r egwyddor yma. ***(Egwyddorion Cyffredinol Adran 3)***<br><br>II. Enwau llefydd- cymalau wedi eu hychwanegu – seiliedig ar hen gymalau y Cynllun Iaith blaenorol ac hefyd ar flaenoriaethau gwaith y Prosiect Enwau Lleoedd.<br><br>III. Cymal eisoes yn y polisi am iaith arwyddion a phosteri<br><br>IV. Cymalau cyd-ddarparu ac allanoli – Adran 9 (9.1) – yn nodi os bydd gwasanaeth yn cael ei allanoli, y disgwylir iddynt ddilyn yr un safonau a pholisïau iaith.<br><br>***V.*** Wedi ystyried yr egwyddor yma ymhellach byddai yn anodd ei weithredu, gan fod cymaint o ddogfennau'r Cyngor yn cael eu cyhoeddi yn ddigidol gyda fersiwn Gymraeg a Saesneg ar wahân (a gallu i symud/toglo o un iaith i'r llall) ond rydym wedi cynnwys cymal |

| | |
|---|---|
| | newydd yn y polisi sydd yn gosod yr egwyddor a'r uchelgais yn yr egwyddorion cyffredinol ar gyfer adran 4:<br><br>*Gwneir pob ymdrech i greu dogfennau byr yn ddwyieithog, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gweld y Gymraeg ar bob cyfle posib.* |
| VI. Gofynnwyd barn am ddefnydd iaith mewn hyfforddiant a'r arfer o gynnal hyfforddiant yn Gymraeg a Saesneg ar wahân. Cytunwyd y dylid ceisio darparu cyfieithu yn lle cynnig sesiynau Saesneg er mwyn ceisio lleihau'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg sydd yn dewis sesiwn Saesneg o ran hwylustod amseru yn hytrach nag oherwydd dewis iaith. | VI. Cymalau 11.9 ac 11.10 wedi ei haddasu:<br><br>*11.9 Bydd **POB** hyfforddiant a gynigir gan y Cyngor yn cael ei ddarparu yn Gymraeg.*<br>*Cymerir pob cam i helpu staff i gymryd rhan yn yr hyfforddiant Cymraeg, ac ni fydd hyfforddiant Saesneg yn cael ei gynnig ar gyfer pynciau craidd oni bai bod gwir angen.*<br><br>*11.10 Dylid ystyried defnyddio cyfieithu ar y pryd mewn sesiynau hyfforddiant, pan fo hynny yn ymarferol bosib, er mwyn galluogi staff sydd yn ddi-hyder eu Cymraeg i gymryd rhan yn effeithiol, er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnal fel y brif iaith weinyddol fewnol, ac er mwyn rhoi cyfleoedd anffurfiol, cefnogol i staff ymarfer eu sgiliau Cymraeg.* |
| **Grŵp Craidd Cydraddoldeb**<br>(Cyflwyno'r Polisi cyfredol (2016) a gofyn am unrhyw sylwadau) | |
| **Materion a godwyd** | **Ymateb yr Uned Iaith a newidiadau sydd wedi eu gwneud** |
| **Sylwadau cyffredinol am gywair iaith a gosodiad testun.**<br>○ Maint y ffont yn gallu ei gwneud yn anodd i rai gyda nam ar y golwg. Gosod testun yn ddwyieithog weithiau yn golygu gorfod defnyddio ffont llai, a dim lle i wneud yn fwy.<br>○ Opsiwn Easy read ddim ar gael yn aml<br>○ Y dewis Saesneg neu Cymraeg ffurfiol – dim byd yn y canol. | Ystyried rhoi mwy o bwyslais ar defnyddio Cymraeg Clir – er mwyn ceisio sicrhau ein bod yn cynhyrchu deunyddiau sydd yn hawdd eu darllen, ac yn helpu rhai sydd yn ddi-hyder am eu gallu i ddeall y Gymraeg<br><br>Trafod efo cydweithwyr a oes cyfleoedd i ni greu mwy o ddeunyddiau yn ddwyieithog, yn hytrach na'r Gymraeg a'r Saesneg ar wahân. |

| | |
|---|---|
| ○ Dysgwyr yn hoffi cael y Gymraeg a Saesneg efo'i gilydd yn hytrach na gorfod newid o un iaith i'r llall | |
| **Sesiynau trafod staff**<br>Cynhaliwyd sawl trafodaeth gyda chydweithwyr oedd a diddordeb neu wybodaeth am feysydd penodol . | |
| **Materion a godwyd** | **Ymateb yr Uned Iaith a newidiadau sydd wedi eu gwneud** |
| **Gweinyddiaeth fewnol:**<br>Angen rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg o ran cyfathrebu mewnol tra hefyd yn parchu dewisiadau pobl, yn enwedig wrth dderbyn gwybodaeth bersonol.<br><br>Angen gwahaniaethu rhwng y gwahanol ffyrdd y cyflwynir gwybodaeth, e.e. gwybodaeth bersonol sydd yn cael ei ddarparu i aelodau staff ar yr hunanwasanaeth a gwybodaeth gyffredinol ar y mewnrwyd. | Cymal wedi ei osod yn Egwyddorion Cyffredinol Adran 11: Gweithrediad Mewnol y Cyngor i adlewyrchu'r egwyddor yma:<br><br>*Bydd unrhyw bolisïau perthnasol sydd yn ymwneud efo hawliau staff, prosesau disgyblu a chwynion, yn amlygu hawliau'r unigolion dan ofynion y Safonau. Bydd y Cyngor yn parchu hawl aelodau staff i arddel dewis iaith, ac yn darparu gwybodaeth bersonol yn yr iaith o'u dewis.*<br><br>Y gwahanol ffyrdd o ddarparu gwybodaeth a defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau mewnol wedi ei amlygu yn Adran 11. |
| **Recriwtio a phenodi:**<br>Angen adlewyrchu'r newidiadau i'r drefn recriwtio yn sgil gweithredu Prosiect y Dynodiadau.<br><br>Angen amlygu gofynion y Safonau o ran hysbysebu swyddi a chofnodi sgiliau iaith. | Cymalau recriwtio a phenodi (Adran 12) wedi eu hysgrifennu mewn ymgynghoriad a'r Bwrdd Prosiect a swyddogion Dysgu a Datblygu.<br>Yr Uned Iaith wedi cynghori a chydweithio gyda gwasanaeth Adnoddau Dynol i sicrhau cysondeb gyda'r polisïau recriwtio perthnasol.<br>Geiriad wedi ei newid i amlygu'r angen yn y Safon i ddefnyddio'r gair HANFODOL. |
| **Penaethiaid gwasanaethau**<br>Rhannu'r copi ymgynghori gyda phenaethiaid am sylwadau yn ystod Mai 2022 | |
| **Materion a godwyd** | **Ymateb yr Uned Iaith a newidiadau sydd wedi eu gwneud** |
| **Newidiadau i'w cynnig neu cwestiynau a godwyd:** | Derbyn y sylw yma ac wedi addasu yr adran yma o'r polisi – ychwanegu is-deitlau "Asesu Effaith" ac "Ymgynghori a gwaith ymchwil cysylltiol" a |

| | |
|---|---|
| Nodwyd bod angen edrych ar y cymalau Llunio Polisi er mwyn sicrhau bod yr arweiniad yn glir i staff.<br>Teimlad nad oedd y disgwyliad i ofyn cwestiwn penodol wrth ymgynghori ar benderfyniadau polisi ddim digon clir. Sawl cyfeiriad at yr angen i asesu'r effaith ar y Gymraeg a mesurau lliniaru, ond dim y cwestiwn | chymalau newydd sydd yn gwneud y gofyn am gwestiynau ymgynghori yn glir. Hefyd wedi ychwanegu dyfyniad o'r Cod Ymarfer er mwyn dangos y diffiniad o benderfyniad polisi. |
| **Pwyllgor Iaith 20 Mehefin 2022**<br>Cyflwyno'r copi ymgynghori er mwyn cael sylwadau a chymeradwyaeth i symud ymlaen i gyflwyno i'r Cabinet. | |
| **Materion a godwyd** | **Ymateb yr Uned Iaith a newidiadau sydd wedi eu gwneud** |
| Gofynnwyd a fyddai posib ychwanegu elfen fwy mesuradwy i'r cymalau llunio polisi sydd yn cyfeirio at asesu effaith. Roedd awydd i weld cymal yn cyfeirio at effaith a fyddai yn achosi gostyngiad sylweddol yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau.<br>Cyfeirio at siaradwyr Cymraeg yn hytrach na thrin y Gymraeg fel mater annibynnol. | Mae'r cymalau yma wedi eu llunio yn benodol i adlewyrchu union ofyn y Safonau, ond mae'r ymgynghorydd wedi addasu geiriad y cymalau dan sylw er mwyn cyfarch y mater a godwyd.<br>Rydym wedi ychwanegu at y cymalau er mwyn cyfeirio at bobl yn benodol, ac at gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg (sef geriad y gofyn yn y Safon).<br><br>Mae gennym bryder am ymrwymo mewn cymal polisi i fesur effaith cynlluniau yn uniongyrchol ar nifer a chanran siaradwyr, gan nad hawdd yw gwneud cyswllt uniongyrchol rhwng polisïau, prosiectau a chynlluniau strategol y Cyngor a newid yn nifer a chanran siaradwyr, ac felly nid hawdd fyddai profi yr effaith. Mae dibyniaeth yr elfen yma ar ddata cyfrifiad hefyd yn gwneud y sefyllfa yn fregus i'r dyfodol.<br><br>Rydym serch hynny yn cydnabod bod ceisio mesur newid yng nghanran y siaradwyr yn agwedd bwysig ar fesur effaith, a byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael sylw yn y canllawiau i staff ar asesu effaith ac yng ngwaith monitro yr Uned o asesiadau effaith.<br><br>Bydd yr ymgynghorwyr hefyd yn cadw'r sylw yma mewn cof wrth ddatblygu eu gwaith o greu mesuryddion ieithyddol ar gyfer prosiectau a chynlluniau. |

| | |
|---|---|
| Cwestiynwyd yr angen i barhau i gynnwys cymal (12.3) sydd yn nodi y bydd un cwestiwn Saesneg yn cael ei ofyn mewn cyfweliadau. | Gan mai polisi yn benodol am y defnydd o'r iaith Gymraeg yw hwn rydym yn derbyn y sylw hwn ac yn cytuno i'w dynnu allan o'r Polisi Iaith.<br>Mae'r cymal hwn hefyd wedi ei fabwysiadu yn y polisi recriwtio mewnol, sydd yn rhoi arweiniad i reolwyr ar y drefn o gynnal cyfweliadau, a byddwn yn tynnu sylw swyddogion perthnasol at y sylw hwn i'w drafod ymhellach. |
| Holwyd am yr angen i sicrhau sgiliau iaith Cymraeg i is-gontractwyr sydd yn cyd-weithio gyda'r Cyngor ar amrywiol brosiectau. | Disgwyliadau ar gontractwyr yn cael sylw dan gymal 9.1<br>*Bydd unrhyw gytundebau darparu yn cyfeirio at y polisi hwn ac yn cynnwys cymalau fydd yn nodi'n glir y gofynion a'r disgwyliadau ar ddarparwyr allanol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Polisi hwn.*<br><br>Credwn bod y cymal hwn, yn ogystal a'r arweiniad a roddir i swyddogion caffael o fewn y Cyngor, yn ddigonol. Cymalau safonol wedi eu llunio i'w defnyddio gan swyddogion caffael – ddim angen cyfeirio at hyn yn y polisi gan mai elfen weithredol yn hytrach nag egwyddor ydyw. |
| Tynnwyd sylw bod aelodau etholedig yn cael eu rhwymo gan y Cod Ymddygiad ac felly angen ystyried os ydi'r polisi iaith cydnabod hyn. | Cytuno i edrych ar gynnwys y Cod Ymddygiad i sicrhau bod y disgwyliad yn glir ac yn gyson. |
| Cwestiynwyd os oedd unrhyw oblygiadau i aelodau o staff sydd angen derbyn hyfforddiant i gyrraedd dynodiad iaith eu swydd ond wedi methu mynychu'r sesiynau hyfforddiant hynny. | Cadarnhawyd nad oes goblygiadau os ydi staff yn methu hyfforddiant iaith Gymraeg i gyrraedd eu dynodiad iaith. Trafodwyd y mater yma yn y Pwyllgor iaith rai blynyddoedd yn ôl, wrth sefydlu y prosiect Dynodiadau iaith, a chytunwyd gyda'r arweiniad gan y gwasanaeth adnoddau dynol ar y pryd nad oedd yn ymarferol i ymrwymo aelod staff i gyfnod penodol |
| **Tîm Arweinyddiaeth 5 Ebrill 2022**<br>Prosiect Enwau Lleoedd wedi cyflwyno adroddiadau i drafod egwyddorion penodol enwau lleoedd | |
| **Materion a godwyd** | **Ymateb yr Uned Iaith a newidiadau sydd wedi eu gwneud** |

| | |
|---|---|
| Aeth swyddogion y Prosiect Enwau Lleoedd at y Tîm Arweinyddiaeth i ofyn am arweiniad gwleidyddol ar arddel enwau Cymraeg, a'r dymuniad i fod yn defnyddio enw Cyngor Gwynedd yn unig (ac nid Gwynedd Council) ac i ddefnyddio enwau strydoedd a lleoedd Cymraeg hyd eithaf ein gallu.<br><br>Cafwyd arweiniad gan y TA eu bod yn cytuno gyda'r egwyddor o arddel enwau Cymraeg, a defnyddio enw Cymraeg y Cyngor lle bynnag y bo'n bosib.<br><br>Bu i'r Tîm Arweinyddiaeth gefnogi'r egwyddor y gellid gweithredu ar rai materion yn syth, ond gan gydnabod y byddai hefyd yn cymryd rhai blynyddoedd i weithredu ar yr holl newidiadau.<br><br>Rhoddwyd arweiniad y byddai arwyddion (yn cynnwys logo y Cyngor) yn cael eu newid wrth fod yr angen y codi, fel na fyddai yn golygu cost ychwanegol ar hyn o bryd. | Mae cymalau wedi eu cynnwys yn y polisi i adlewyrchu ymrwymiad y prosiect enwau lleoedd i warchod ac arddel enwau Cymraeg (***Egwyddor cyffredinol 2, Cymal 1.6, Egwyddor cyffredinol Adran 4, Cymal 6.4***) a bydd y gwaith o weithredu ar y cymalau hyn yn dod yn rhan o raglen waith y Prosiect Enwau Lleoedd, sydd oherwydd ei statws fel prosiect blaenoriaeth y Cyngor, yn cael ei fonitro wrth adrodd ar gynnydd drwy drefniadau herio perfformiad.<br><br>*Bod delwedd a hunaniaeth gorfforaethol y Cyngor yn adlewyrchu ei ymrwymiad a'r flaenoriaeth a roddir i'r Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio yr enw Cyngor Gwynedd wrth gyfeirio at ei hun lle bynnag y bo'n bosib.*<br><br>***1.6*** *Dylid sicrhau bod unrhyw ohebiaeth a anfonir, yn electronig neu yn unigol gan staff, yn defnyddio cyfeiriadau Cymraeg, gan gynnwys enwau strydoedd Cymraeg a'r ffurfiau ar enwau lleoedd sydd ar Gofrestr Enwau Lleoedd y Cyngor.*<br><br>***Egwyddorion Cyffredinol Adran 4***<br>*Bydd y Cyngor yn cyfeirio at ei hun yn ôl ei enw Cymraeg, Cyngor Gwynedd, ac yn arddel enwau Cymraeg ar leoliadau a nodweddion yn eu holl gyhoeddiadau a deunyddiau ysgrifenedig cyhoeddus.*<br><br>***6.4*** *Bydd y Cyngor yn ymrwymo i hybu defnydd o enwau Cymraeg ar leoliadau drwy ddefnyddio yr enwau Cymraeg yn unig ar arwyddion o fewn y sir lle bynnag y bydd hynny yn ymarferol bosib. Mae hyn yn cynnwys defnyddio enwau Cymraeg yn unig ar arwyddion stryd a ffordd newydd, ac ystyried newidiadau i arwyddion wrth iddynt gael eu hadnewyddu i ddefnyddio enwau Cymraeg yn unig.* |
| | |